



Bethan Sayed AC  
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

06/08/2018

Annwyl Gadeirydd

### Cyhoeddi Adroddiad Sicrwydd 2017-18 Comisiynydd y Gymraeg

Ysgrifennaf atoch yn cyflwyno fy mhedwerydd adroddiad sicrwydd sy'n rhoi sylw i'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus. **Mesur o Lwyddiant** yw'r adroddiad olaf y byddaf i fel Comisiynydd yn ei chyflwyno i chi fel Cadeirydd ac i'r Pwyllgor. Yng ngoleuni hynny byddwn yn falch o gael y cyfle i ddod i drafod y dystiolaeth a'r canfyddiadau gyda chi yn ffurfiol ac ar y cofnod.

Mae'r adroddiad yn un eang sy'n cychwyn drwy gyflwyno tystiolaeth am ansawdd gwasanaethau Cymraeg, am welliannau gwasanaeth neu wasanaethau sydd heb fod ar gael yn ôl y disgwyl. Ar y cyfan mae'r adroddiad yn dweud bod gwell cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ceir adran yn yr adroddiad yn rhoi sylw i annog defnyddio'r Gymraeg. Cyflwynir tystiolaeth ansoddol am yr hyn sy'n effeithio dewisiadau iaith unigolion a cheir ystadegau am y graddau mae sefydliadau cyhoeddus yn rhoi cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr mewn gwahanol amgylchiadau.

Mae rhan olaf yr adroddiad yn canolbwyntio ar reolaeth iaith gan hoelio sylw ar ddigonolrwydd trefniadau gwneud penderfyniadau polisi, dyfarnu grantiau ac yn rhoi sylw i ddatblygu polisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel rhan o weinyddiaeth fewnol sefydliad.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â'r adroddiad neu'r canfyddiadau, byddwn yn fwy na pharod i'ch cynorthwyo.

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.org  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.org  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at sylw: Steve George, [SeneddDGCh@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDGCh@cynulliad.cymru)

[Dolen at y crynodeb](#)

[Dolen at y fersiwn llawn](#)